



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Ffilmio

Mae'r Pwyllgor Gweithgareddau a Digwyddiadau angen o leiaf wythnos i brosesu'r cais ar ôl derbyn eich dogfennau'n llawn.

Mae'r ddogfennaeth lawn yn cynnwys: y ffurflen gais yn gyflawn, Asesiad Risg, Datganiad Dull derbyniol (os yw'n berthnasol) a chopi o Dystysgrif eich Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

Os ydych yn bwriadu defnyddio drôn i ffilmio ar ein tir, rhaid i'r peilot sy'n gyfrifol am y drôn feddu ar drwydded gan yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) a bod ei enw ar restr y CAA o weithredwyr Awyrennau Bach Di-griw (*Small Unmanned Aircraft*) sy'n meddu ar ganiatâd dilys gan y CAA.

Bydd angen copi cyfredol o yswiriant Peilot y drôn cyn rhoi caniatâd ac mae Cyngor Sir Ceredigion yn mynnu bod o leiaf £5m o Atebolrwydd Cyhoeddus ar yr yswiriant. Darparwch gopi sy'n ddilys ar gyfer dyddiad(au) y ffilmio.

Mae rhai o'r lleoliadau yr hoffech eu ffilmio yn dod o dan gyfrifoldeb yr Adran Ystadau, neu Adran yr Arfordir a Chefn Gwlad. Bydd angen caniatâd a thrwydded arnoch wrthyn nhw.

Ystyriwch os oes angen mesurau i atal neu reoli heintiau drwy awyru, golchi dwylo, atgoffa'r sawl sy'n cymryd rhan i beidio â mynychu os oes ganddynt symptomau salwch heintus, a hefyd a oes trefniadau addas ar waith o ran glanhau.

Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â ffilmio i'w chael yma:
<http://www.ceredigion.gov.uk/ffilmio>